# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Eitem:** | Cyfrifon Terfynol 2024/25 – Alldro Refeniw |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid |
| **Swyddog perthnasol:** | Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 13 Mai 2025 |

***Crynodeb***

- *Sefyllfa ariannol wedi gwella ers rhagolygon Adolygiad Awst a Tachwedd.*
- *Derbyniadau grantiau sylweddol yn hwyr yn y flwyddyn i nifer o feysydd gan gynnwys Oedolion, Addysg, Economi a Chorfforaethol wedi gwella'r sefyllfa ariannol erbyn diwedd y flwyddyn.*
- *Gorwariant yn parhau yn y maes lleoliadau all-sirol plant, gwasanaeth Derwen, gofal cartref a gwastraff.*
- *Sefyllfa ffafriol ar nifer o gyllidebau corfforaethol yn cynorthwyo i leddfu'r sefyllfa ariannol ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd*
- *Ymarferiad cynaeafu cronfeydd yn rhyddhau £1.65 miliwn o gronfeydd i'w rhoi yn y Gronfa Trawsffurfio ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor.*

## 1. Penderfyniad a geisir

1.1 Derbyn yr adroddiad ac ystyried y sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2024/25:

| | *Colofn A* | *Colofn B* | *Colofn C* | *Colofn CH* | *Colofn D* |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Gor/(Tan) Wariant Gros 2024/25** | **Addasiadau a Argymhellir** | | | **Gor/(Tan) Wariant Addasedig 2024/25** |
| | **£ '000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | **857** | | | (757) | **100** |
| Plant a Theuluoedd | **3,805** | | | (3,705) | **100** |
| Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal | **(15)** | 15 | | | **0** |
| Addysg | **(191)** | 191 | | | **0** |
| Economi a Chymuned | **281** | | (281) | | **0** |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC | **656** | | | (556) | **100** |
| Amgylchedd | **1,349** | | (1,100) | (149) | **100** |
| Tai ac Eiddo | **(3)** | 3 | | | **0** |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | **(48)** | 48 | | | **0** |
| Gwasanaethau Corfforaethol | **(42)** | 42 | | | **0** |
| Cyllid | **(5)** | 5 | | | **0** |

1.2 Gan nodi bod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC, a'r Adran Amgylchedd yn 2024/25 (Gweler colofn A yn y tabl uchod). Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u hegluro yn **Atodiad 2)** -

- Yn unol â phenderfyniad Cabinet 21 Ionawr 2025, peidio caniatáu i adrannau gario unrhyw danwariant i'r flwyddyn ariannol nesaf drwy eithrio cymal 16.3.1.(C) o'r Rheoliadau Ariannol (Gweler colofn B yn y tabl uchod).
- Cadarnhau'r cymorth ariannol o £281k uwchlaw'r taliad cytundebol i Gwmni Byw'n Iach, a defnyddio £1.1 miliwn o gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer i gyllido'r gorwariant yn y maes Gwastraff (Gweler colofn C yn y tabl uchod).
- Yr adrannau sydd yn gorwario i dderbyn cymorth ariannol un tro gan gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k (Gweler colofn CH yn y tabl uchod).
- Ar gyllidebau Corfforaethol:
  - defnyddio (£5.144 miliwn) o'r tanwariant ar gyllidebau corfforaethol i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2024/25.
  - gweddill y tanwariant o (£1.548 miliwn) ar gyllidebau Corfforaethol i'w drosglwyddo i'r Gronfa Trawsffurfio, i'w ddefnyddio ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor.

1.3 Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" yng ngholofn D uchod ac yn **Atodiad 1**).

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd penodol fel yr amlinellir yn **Atodiad 3** yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd:

- cynaeafu £1.275 miliwn o amrywiol gronfeydd a'i drosglwyddo i'r Gronfa Trawsffurfio.
- Dad-ymrwymo £375k o gynlluniau hanesyddol neu rai heb ymrwymiadau yn y Gronfa Trawsffurfio.
- Symud £2.5 miliwn o gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol i'r Gronfa Trawsffurfio

Fel eu bod ar gael ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor a chyllido bidiau un tro i'r dyfodol.

## 2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

2.1 Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

2.2 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2024/25 sydd yn sail i'r datganiadau ariannol statudol.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

### Cefndir / Cyflwyniad

3.1 Mae talfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau wedi'i amlinellu yn **Atodiad 1**. Ar ddiwedd y flwyddyn mae pedair adran yn gorwario yn sylweddol. Mae'r symiau i'w cario ymlaen (yn

amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet) yn y golofn 'Gor/(Tan) Wariant Addasedig 2024/25'(Colofn D).

3.2 Yn **Atodiad 2**, mae manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol, ynghyd â sawl argymhelliad penodol. Mae'r argymhellion hynny wedi'u hamlygu er ystyriaeth yn 1.2 uchod.

3.3 Yn yr adolygiad o'r gyllideb refeniw diwethaf a wnaethpwyd ar sefyllfa ddiwedd Tachwedd 2024, rhagwelwyd diffyg o £8.5 miliwn gan yr adrannau, ers hynny, mae gorwariant gan adrannau'r cyngor wedi lleihau i £6.6 miliwn. Y prif feysydd gorwariant yw'r maes lleoliadau all-sirol a'r gwasanaeth Derwen plant, gofal cartref a gwastraff. Mae derbyniadau grant sylweddol a sefyllfa ffafriol ar nifer o gyllidebau corfforaethol yn cynorthwyo i leddfu'r sefyllfa ariannol ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## 4. Sefyllfa Arbedion

4.1 Yn adroddiad Cyllideb 2024/25 i'r Cyngor Llawn ar 7 Mawrth 2024, adroddwyd fod arbedion gwerth £5,648,890 yn ofynnol er mwyn cynorthwyo i gau'r bwlch cyllidol 2024/25. Mae'r cyllidebau wedi eu lleihau o'r swm yma; ac felly adroddir ar y sefyllfa yn dilyn ystyriaeth o'r arbedion.

4.2 Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi adrodd ar risgiau i gyflawni arbedion. Bu i werth £2 filiwn o gynlluniau arbedion gael eu dileu yn ystod 2023/24. O ran y cynlluniau sydd yn weddill, mae yna risgiau o ran gwireddu rhai o'r cynlluniau.

4.3 Y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr arbedion yw bod dros £43 miliwn, sef 93% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi eu gwireddu.

## 5. Adrannau'r Cyngor

5.1 Mae'r prif faterion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fel a ganlyn:

5.2 **Adran Oedolion Iechyd a Llesiant**

Yn dilyn i'r Adran dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol barhaol o dros £3.2 miliwn eleni i gwrdd â phwysau mewn gwahanol feysydd, mae'r gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn yn £857k, sydd yn lleihad o'r rhagolygon o £3 miliwn yn gynharach yn y flwyddyn. Ers yr adolygiad diwethaf bu i'r adran dderbyn grantiau ac incwm sylweddol sydd wedi cynorthwyo'r sefyllfa.

Mae pwysau amlwg yn parhau yn y maes Gofal Cartref, gyda chostau staffio uwch a lefelau salwch a chyfraddau oriau digyswllt yn uchel, tra bod pwysau sylweddol hefyd ar y gyllideb darparwyr gofal cartref preifat. Mae defnydd o staff asiantaeth yn un o'r materion yng ngofal preswyl mewnol.

5.3 **Adran Plant a Theuluoedd**

Ers adolygiad Tachwedd mae gorwariant yr Adran wedi cynyddu o £3.7 miliwn i £3.8 miliwn, gwelwyd cynnydd yng nghostau lleoliadau all-sirol oherwydd cymhlethdodau pecynnau a

defnydd cynyddol ddiweddar o leoliadau heb eu cofrestru, sydd fwy costus. Pwysau hefyd i'w weld ar gyllideb y Gwasanaeth Derwen ac ar gefnogaeth cynlluniau cefnogol a gweithwyr maes.

5.4 **Adran Addysg**

Yn dilyn gorwariant o £1.5 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24 ar gludiant ysgolion, bu i'r maes dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol eleni o £896k ar sail barhaol ac £896k pellach am flwyddyn yn unig, i gyfarch y pwysau ar y maes bysus a thacsis ysgolion. Bu i'r adran dderbyn nifer o grantiau ynghyd â chwtogi ar wariant sydd yn golygu fod yr adran yn tanwario (£191k) ar ddiwedd y flwyddyn.

5.5 **Byw'n Iach**

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cwmni Byw'n Iach wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan y Cyngor oedd yn £550k yn 2022/23 a £308k yn 2023/24, oedd uwchlaw'r taliad cytundebol y contract ddarparu, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Mae'r angen am gefnogaeth ariannol yn parhau yn 2024/25 gyda'r swm gofynnol wedi cynyddu i £281k erbyn diwedd y flwyddyn.

5.6 **Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC**

Gorwariant o £656k gan yr adran, gwelwyd mwy o waith yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol ac felly wedi cael effaith gadarnhaol ar sefyllfa incwm gwasanaethau priffyrdd. Ym mwrdeistrefol, mae cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys pwysau ychwanegol ar gyllidebau staff glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus. Tra bod colledion incwm yn faterion yn cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus, ond incwm uwch gan y gwasanaeth profedigaeth. Gwelwyd gwelliant pellach hefyd yn yr incwm gan Ymgynghoriaeth Gwynedd.

5.7 **Adran Amgylchedd**

Gorwariant o £1.349 miliwn, gyda'r tueddiad blynyddol o orwariant yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu yn parhau ac yn gyfrifol am £1.1 miliwn o'r gorwariant. Mae costau cyflogaeth a lefelau salwch a goramser yn broblemus yn y maes. Mae diffyg incwm parcio hefyd yn amlwg eleni ac wedi cynyddu i £826k erbyn diwedd y flwyddyn. Mae yna nifer o gynlluniau arbedion yn llithro yn ogystal, sydd yn rhan o'r darlun. Tanwariant ar Reolaeth Rhwydwaith Trafnidiaeth ac ar Warchod y Cyhoedd yn lleihau'r gorwariant adrannol a adroddir.

5.8 **Adran Tai ac Eiddo**

Y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng yn parhau, gyda gwariant ar y maes yn £6 miliwn eleni, hyn i gymharu â £6.8 miliwn y llynedd. Mae'r sefyllfa ariannol a adroddir yn dilyn ystyried cyllideb ychwanegol o £3 miliwn sydd wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor, cyllideb un-tro ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o'r drefn bidiau 2024/25 ac ymhellach i hyn, derbyniad grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd Mawrth 2025 i gynorthwyo gyda'r pwysau ychwanegol.

Bu llithriad o £1.2 miliwn ar y gyllideb cynnal a chadw refeniw corfforaethol yn ystod 2024/25 yn dilyn derbyn grantiau gwerth £1.8 miliwn tuag at gynnal a chadw Addysg yn ystod y flwyddyn. Mae'r llithriad o £1.2 miliwn wedi ei drosglwyddo i gronfa benodol at ddibenion cynnal a chadw i'r dyfodol.

5.9 **Corfforaethol**
Tanwariant ar gorfforaethol o ganlyniad i gynnyrch treth ychwanegol a rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2024/25. Bu i'r holl gynghorau dderbyn grant sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd Mawrth tuag at y pwysau ychwanegol sydd yn wynebu Llywodraeth Leol, sydd wedi cynorthwyo i leddfu'r sefyllfa ariannol.

5.10 **Yn Atodiad 1, adroddir ar sefyllfa tanwariant / gorwariant pob adran i'r Cabinet, a cheisir penderfyniad ffurfiol i gymeradwyo'r symiau sydd i'w cario 'mlaen.** Mae Rheoliad Gweithdrefn Ariannol 16.3.1 yn manylu ar y trefniadau ar gyfer symiau i'w "cario 'mlaen" ar ddiwedd y flwyddyn. Gweithredwyd yn unol â phenderfyniad Cabinet 21 Ionawr 2025, i beidio caniatáu i'r adrannau gario unrhyw danwariant i'r flwyddyn ariannol nesaf drwy eithrio cymal 16.3.1.(C) o'r Rheoliadau Ariannol, sydd yn berthnasol i chwe adran. Mae yna bedwar cais i'r Cabinet i ddileu diffyg adrannol ar gau 2024/25.

5.11 Yn gyffredinol, lle mae'r adrannau wedi tanwario, mae'r sefyllfa hwnnw am un tro yn 2024/25 yn unig.

5.12 Rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r cyllidebau sydd dan bwysau yng nghylch cyllidebu 2025/26, ac mae nifer o'r materion parhaol hynny eisoes wedi'u cyfarch yn y strategaeth ariannol ar gyfer 2025/26 (drwy weithrediad rheolaethol i atal tueddiad a/neu drwy addasu'r gyllideb).

## 6. Ysgolion

6.1 Mae rhan o **Atodiad 2** yn manylu ar sefyllfa cyllidebau'r ysgolion, lle mae statud wedi cyflwyno grym dirprwyedig i gyrff llywodraethu gario balansau ymlaen ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Mae'r cyfanswm sirol o falansau'r ysgolion wedi gweld gostyngiad bychan o £0.26 miliwn, gan leihau o £8.5 miliwn yn 2023/24 i £8.3 miliwn yn 2024/25. Ers 2019/20 gwelwyd cynnydd sylweddol ym malansau ysgolion yn sgil effaith grantiau Cofid. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol roedd rhagolygon o leihad sylweddol ym malansau ysgolion fyddai'n dod a balansau i lefelau arferol cyn Cofid, ond yn dilyn derbyniwyd grantiau gwerth £4.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn, golyga fod lefelau'r balansau wedi eu cynnal. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am falansau ysgolion unigol cyn hir mewn 'Datganiad Adran 52'.

6.2 Mae gan yr Adran Addysg drefniadau ar gyfer herio'r ysgolion unigol i gyfiawnhau'r angen am eu balansau, ac maent yn gofyn i'r penaethiaid a chyrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol i egluro'u bwriad i ddefnyddio eu balansau (yn arbennig rheiny sydd gyda balansau dros 5% o'i gyllideb).

6.3 Mae tair ysgol gynradd a thair ysgol uwchradd gyda diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2024/25. Cadarnhaf y bydd yr Uned Gyllid perthnasol hefyd yn sicrhau y bydd penaethiaid a chyrff llywodraethol yr ysgolion sydd â diffygion ariannol yn delio gyda nhw.

## 7. Cyllidebau a Chronfeydd Corfforaethol

7.1 Am nifer o resymau bu tanwariant un tro ar nifer o benawdau'r gyllideb gorfforaethol eleni, fel y nodir yn 5.9 uchod, a rhan olaf **Atodiad 2**. Adroddir ar danwariant o (£6.692 miliwn).

Awgrymir fod y tanwariant yma ynghyd â thanwariant gan yr adrannau sydd yn tanwario yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario yn 2024/25.

7.2 Adolygwyd digonolrwydd cronfeydd penodol y Cyngor gan y Pennaeth Cyllid unwaith eto wrth gau'r cyfrifon eleni, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd rhai blynyddoedd yn ôl. Fel yr amlinellir yn **Atodiad 3,** llwyddodd yr adolygiad yma i gynaeafu £1.275 miliwn o adnoddau. Hefyd, dad-ymrwymwyd gwerth £375k o'r gronfa trawsffurfio, felly cynaeafu cyfanswm o £1.650 miliwn. Mae'r arian yma i'w roi yn y Gronfa Trawsffurfio i'w ddefnyddio ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor a chyllido bidiau un-tro i'r dyfodol.

7.3 Awgrymir fod gweddill tanwariant corfforaethol sef £1.548 miliwn, ynghyd â £2.5 miliwn o Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth yn cael eu trosglwyddo i'r Gronfa Trawsffurfio i'w ddefnyddio ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor.

## 8. Casgliad

8.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw manylu ar y sefyllfa alldro o ran tanwariant neu orwariant adrannau unigol ac ar wariant y Cyngor yn ei gyfanrwydd yn 2024/25. Adroddir ar sefyllfa gorwariant o £6.6 miliwn gan yr adrannau ar ddiwedd y flwyddyn, sydd yn cael ei leihau gan danwariant o £6.7 miliwn ar gyllidebau corfforaethol i roi tanwariant net o (£48k) ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd (Colofn A, Atodiad 1)

8.2 Yn dilyn y tanwariant ar benawdau corfforaethol ynghyd â'r ymarferiad cynaeafu cronfeydd a throsglwyddiad arian o gronfa, bydd gwerth £5.323 miliwn yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Trawsffurfio a £375k pellach yn cael ei ddad-ymrwymo i roi cyfanswm o £5.698 miliwn, sydd ar gael i'r Cyngor ar gyfer ei flaenoriaethau.

## 9. Camau nesaf ac amserlen

9.1 Byddwn yn ystyried y wybodaeth gan adlewyrchu'r sefyllfa yn y cyfrifon terfynol.

9.2 Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod a'r broses i derfyn, gallasai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.

9.3 Bydd yr Adran Gyllid yn cynhyrchu datganiadau ariannol statudol 2024/25 i'w hardystio gan y Pennaeth Cyllid o fewn yr amserlen statudol. Bydd yr adroddiad alldro yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 22 Mai.

## 10. Sylwadau Swyddogion Statudol

10.1 **Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

10.2 **Swyddog Monitro**

Dim sylwadau i'w hychwanegu os safbwynt priodoldeb.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Sefyllfa tanwariant / gorwariant terfynol pob adran

Atodiad 2 - Prif faterion cyllidebol a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol

Atodiad 3 - Adnoddau wedi'u cynaeafu o adolygu cronfeydd